

GRŴP ADOLYGU GWEITHREDU PROFION OTM

CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH

Diben y Grŵp

Goruchwylio'r gwaith o weithredu trefn cynnal profion BSE ar gyfer gwartheg a anwyd ar ôl mis Gorffennaf 1996 sy'n hŷn na 30 mis ac sy'n cael eu lladd ar gyfer bwyd i bobl; craffu ar agweddau gweithredol a ddatblygwyd gan Defra a'r MHS ym Mhrydain Fawr, a DARD yng Ngogledd Iwerddon, a gwneud sylwadau arnynt, i sicrhau y caiff y drefn cynnal profion honno ei rhoi ar waith ac y cydymffurfir â hi a'i gorfodi yn unol ag argymhellion Bwrdd yr FSA yn ei gyfarfod ar 15 Awst 2005¹; ac i sicrhau y caiff iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr eu diogelu mewn modd cymesur yn unol â datganiad cyffredinol yr FSA o amcanion ac arferion².

Amllder cyfarfodydd

Misol. Caiff y grŵp ei ddirwyn i ben flwyddyn ar ôl cyflwyno profion OTM.

Cylch Gorchwyl

1. Datblygu meini prawf perfformiad, pennu'r wybodaeth am fesur perfformiad sydd ei hangen a dulliau adrodd
2. Adolygu gwybodaeth ac adroddiadau a dderbyniwyd (gan gynnwys adroddiadau archwilio) a chytuno ar gamau lle y bo'n briodol
3. Cytuno ar gamau, a'u hadolygu, mewn ymateb i argymhellion y Grŵp Cyngori Annibynnol
4. Cyfeirio materion sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth Hylendid Cig at Fwrdd yr MHS a derbyn adroddiadau ganddo.
5. Cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd i Fwrdd yr FSA, gan hysbysu Bwrdd yr FSA ar unwaith os wynebir problemau difrifol o ran gweithredu
6. Ystyried anghenion cyfathrebu parhaus ar gyfer defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill
7. Ystyried adroddiadau a dderbyniwyd o'r archwiliad a'r adolygiad o chwe mis cyntaf gweithredu ac archwiliadau ac adolygiadau parhaus dilynol gan yr FSA, gwneud argymhellion i Fwrdd yr FSA a goruchwylio camau dilynol.

AELODAETH

¹ www.food.gov.uk/news/newsarchive/2005/aug/boardupdateaugust2005

² www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/sgop.pdf

| | |
|--|--|
| Asiantaeth Safonau Bwyd | Pennaeth Adran TSE – Alison Gleadle (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Milfeddygol- Alick Simmons Cynghorydd Milfeddygol y TSED - Adrienne Conroy Pennaeth Cangen OTM y TSED - David Carruthers FSA Gogledd Iwerddon - Kirsten Dunbar |
| Bwrdd yr MHS | Celia Bennett |
| Cynrychiolydd Defnyddwyr | Diane McCrea |
| Cynrychiolydd y Diwydiant Cig | Duncan Pullar, MLC ³ |
| Yr Adran Iechyd | Eileen Lawrence |
| Defra | Stuart Roberts |
| Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yng Ngogledd Iwerddon (DARD) | Kate Davey George Byrne |
| Gweithrediaeth yr Alban | Martin Morgan |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Jo Glenn |

ARSYLWYR

| | |
|---------------------------|----------------------------|
| Y Gwasanaeth Hylendid Cig | Colin Pearson, Craig Kirby |
|---------------------------|----------------------------|

YSGRIFENYDDIAETH

| | |
|-------------------------|-------------------------------------|
| Asiantaeth Safonau Bwyd | Adran TSE, Cangen OTM – Jill Wilson |
|-------------------------|-------------------------------------|

³ yn cymryd lle'r diweddar Mike Attenborough

GRŴP ADOLYGU GWEITHREDU PROFION OTM

ADRODDIAD INTERIM: 4 Gorffennaf 2006

Crynodeb

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno barn y Grŵp Adolygu Gweithredu ar effeithiolrwydd gweithredu a gweithio'r system cynnal profion BSE hyd yn hyn, gan ystyried adroddiad adolygiad annibynnol, a gynhaliwyd gan DNV Consulting, o chwe mis cyntaf o weithredu'r system. Casgliadau'r Grŵp yw:
 - bod y broses o weithredu'r system cynnal profion yn lladd-dai'r DU wedi mynd yn ei blaen yn foddhaol hyd yn hyn a bod tystiolaeth gadarn fod y system sy'n seiliedig ar gyngor gan y Grŵp Cyngori Annibynnol yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol ac yn gyson. Nid yw'r un anifail anghymwys wedi mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd;
 - bod elfen samplu a phrofi'r system yn gweithio'n dda. Mae lefel y canlyniadau "dim prawf", er ei bod yn gymharol isel, yn achosi i'r diwydiant fynd i gost y gellir ei hosgoi, ond nid yw wedi hyn wedi peri risg i ddiogelwch defnyddwyr;
 - bod rheolaethau lladd-dai ar brosesu gwartheg OTM i'w bwyta gan bobl yn gweithio'n effeithiol a hyd yn hyn bod cydymffurfiaeth o 100% wedi bod â'r rheol bod yn rhaid i wartheg OTM gael canlyniad negyddol mewn prawf BSE cyn y caniateir iddynt fynd i mewn i'r cyflenwad bwyd. Nid yw unrhyw wartheg a anwyd neu a fagwyd yn y DU cyn Awst 1996 wedi mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd. Mae'r system o wiriadau ac archwilio yn rhoi sicrwydd y gellir cynnal y lefel dda hon o berfformiad;
 - bod perfformiad y rheolaethau ar wartheg a anwyd cyn Awst 1996 hyd yn hyn yn dangos eu bod yn effeithiol ond er hynny, bod angen bod wyladwrus o hyd a phwyso'n barhaus ar y diwydiant i leihau nifer yr anifeiliaid o'r fath a anfonir i ladd-dai cig ffres;
 - yn gyffredinol, mae nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi bod yn gymharol fach. Er hynny, mae'r system wedi cael ei herio gan yr achosion hyn ac mae wedi perfformio'n dda wrth wynebu'r rhain;
 - mae'n debygol bod effaith y newidiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 29, wrth leihau niferoedd y gwartheg a laddwyd ar frys y gallent fod wedi mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd, wedi bod yn fanteisiol wrth leihau'r risg o BSE mewn gwartheg OTM sy'n mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd.

Cefndir

2. Ar 7 Tachwedd 2005, disodlwyd y gwaharddiad ar wartheg dros dri deg mis (OTM) o'r cyflenwad bwyd, a gyflwynwyd yn 1996 fel mesur allweddol i ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag BSE, gan system o gynnal profion BSE ar wartheg OTM a laddwyd i'w bwyta gan bobl. Mae gwartheg a anwyd neu a fagwyd yn y DU cyn Awst 1996 wedi'u gwahardd yn barhaol o hyd rhag mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd.

3. Cyn symud at gynnal profion BSE, cyngorwyd yr FSA gan Grŵp Cyngori Annibynnol (IAG) ar y gofynion o ran trefn cynnal profion BSE a fyddai'n gweithredu'n effeithiol ar yr amod y caiff ei rhoi ar waith yn llawn a'i monitro¹.
4. Gofynnodd yr FSA i'r Grŵp Adolygu Gweithredu oruchwylio'r gwaith o weithredu'r system cynnal profion BSE am y 12 mis cyntaf o'i gweithredu ac i gyflwyno adroddiad arnynt. Mae'r Grŵp wedi monitro'r gwaith o weithredu'r system cynnal profion dros gyfnod yn dechrau ym mis Hydref 2005, ychydig cyn y dyddiad gweithredu.

Rhaglen waith

5. Mae'r Grŵp wedi cwrdd bob mis ers mis Hydref 2005 i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r system ar gyfer cynnal profion BSE ar wartheg OTM a laddwyd i'w bwyta gan bobl. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r Grŵp wedi:
 - adolygu'r camau i'w cymryd mewn ymateb i argymhellion yr IAG a chytuno arnynt;
 - datblygu meini prawf perfformiad a phennu'r wybodaeth am fesur perfformiad sydd ei hangen a threfnau adrodd ar gyfer y system cynnal profion;
 - adolygu adroddiadau rheolaidd swyddogion Defra a DARD², sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros y system cynnal profion, ar weithrediad a pherfformiad y system;
 - adolygu adroddiadau ar faterion sydd wedi codi mewn perthynas â gweithredu'r system a allai o bosibl achosi methiant a'r ymatebion swyddogol i'r materion hynny;
 - archwilio adroddiadau'r Tîm Gwirio ac Archwilio o archwiliadau'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS), (ym Mhrydain Fawr) ac uned archwilio Gwasanaeth Milfeddygol (VS) DARD (Gogledd Iwerddon) o weithrediad y system cynnal profion ac adroddiad yr adolygiad annibynnol gan DNV Consulting o weithredu chwe mis cyntaf y system cynnal profion BSE;
 - cadw'r gofyniad i gyfathrebu â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill ar weithredu'r system cynnal profion a gaiff ei hadolygu.

Safbwynt presennol ar weithredu'r system cynnal profion

(a) gweithredu'r system cynnal profion

6. Cymeradwywyd deg lladd-dy ym Mhrydain Fawr ac un lladd-dy yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer lladd gwartheg OTM i'w bwyta gan bobl o ddyddiad dechrau cynnal profion BSE ac mae niferoedd y lladd-dai cymeradwy wedi cynyddu'n raddol ers hynny. Ar ddiwedd mis Mehefin 2006, roedd 56 o ladd-dai ym Mhrydain Fawr a naw lladd-dy yng Ngogledd Iwerddon wedi'u cymeradwyo. Ni fu unrhyw broblem o ran prinder lladd-dai cymeradwy na diffyg capasiti lladd cymeradwy ar gyfer gwartheg OTM mewn unrhyw ran o'r wlad ers dechrau cynnal profion BSE. Mae mwy na'r capasiti lladd cymeradwy digonol eisoes yn bodoli i fodloni'r galw brig yn y dyfodol ar gyfer lladd gwartheg OTM.

¹ Adroddiad at yr FSA ar ddatblygiad system ar gyfer cynnal profion BSE ar wartheg dros dri deg mis yn <http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/fsa050802a.pdf>

² Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Gogledd Iwerddon

7. Dechreuodd niferoedd y gwartheg OTM a laddwyd bob wythnos i'w bwyta gan bobl yn fach gan gynyddu'n raddol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Cyfanswm wythnosol y gwartheg OTM a gaiff eu lladd i'w bwyta gan bobl ar hyn o bryd yw oddeutu 5,000 ym Mhrydain Fawr, sef lefel rhagolwg amcangyfrifol lladd y Comisiwn Cig a Da Byw, a 1,500 yng Ngogledd Iwerddon. Erbyn 26 Mehefin, cyfansymiau cronol y gwartheg OTM a laddwyd i'w bwyta gan bobl ers dechrau cynnal profion oedd 129,000 ym Mhrydain Fawr a 32,000 yng Ngogledd Iwerddon.
8. Anogir y Grŵp i nodi canfyddiadau'r adolygiad DNV bod
- arweiniad ar gyfer staff gorfodi, a ddarperir yng nghyfarwyddiadau MHS a VS DARD, yn gywir ac yn ddigonol;
 - gofynion bod holl staff MHS sy'n gweithio mewn safleoedd OTM yn mynychu cwrs hyfforddi undydd ac yn llwyddo mewn prawf cymhwyster wedi bod yn effeithiol wrth sicrhau lefel briodol o gymhwyster ymhlith y staff a gyflogir. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd OVS ac Uwch Arolygydd Hylendid Cig o bob lladd-dy wedi mynychu cwrs hyfforddi undydd ac wedi rhaeadru'r hyfforddiant i holl aelodau'r tîm archwilio cig;
 - canfuwyd bod yr holl RMOP (Dulliau Gweithredu Gofynnol) yn bodloni gofynion yr IAG ac yn dangos lefel uchel o gysondeb rhwng safleoedd;
 - mae'r drefn cynnal profion a weithredir yn y DU wedi ystyried y materion a amlygwyd gan Adroddiad Wall ³a bod ymdrechion caled wedi'u gwneud i sicrhau bod y system yn effeithiol ac yn gadarn.
9. Mae'r Grŵp yn dod i'r casgliad bod y system cynnal profion yn lladd-dai'r DU wedi mynd yn ei blaen yn foddhaol hyd yn hyn a bod tystiolaeth gadarn fod y system sy'n seiliedig ar gyngor gan y Grŵp Cynghori Annibynnol yn cael ei gweithredu'n yn effeithiol ac yn gyson. Nid yw'r un anifail anghymwys wedi mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd.

(b) samplu a chynnal profion

10. Hyd yn hyn, nid yw unrhyw anifail a laddwyd i'w fwyta gan bobl wedi cael canlyniad positif ar gyfer BSE. Mae'r holl brofion a gynhaliwyd hyd yn hyn wedi rhoi canlyniad negyddol, ar wahân i nifer gymharol fach o samplau (llai nac un ym mhob mil o samplau a gymerwyd) sydd, am amrywiaeth o resymau, wedi bod o ansawdd annigonol ar gyfer cynnal profion ac wedi cael canlyniad "dim prawf".
11. Mae rheolau'r UE yn ei gwneud yn ofynnol trin canlyniadau "dim prawf" fel pe baent yn bositif, ac o ganlyniad, mae'n rhaid symud a dinistrio cascás a rhannau corff yr anifail sy'n dod cyn yr anifail "dim prawf" ar y llinell lladd a'r ddau anifail ar ei ôl. Mae'r Grŵp wedi cael ei sicrhau bod y weithdrefn gywir wedi'i dilyn ym mhob achos lle y cafwyd canlyniad "dim prawf" ac ni fu unrhyw achosion lle y mae labordai wedi methu â dychwelyd canlyniadau o fewn yr amserlen sy'n ofynnol yn ôl y diwydiant.
12. Mae'r Grŵp wedi adolygu'r systemau ansawdd labordy sydd ar waith ynghyd â threfniadau ar gyfer monitro perfformiad profion a labordai gan yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol (VLA) yn ei rôl fel y Labordy Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer cynnal profion BSE. Ar gyfer sicrwydd ychwanegol, gwahoddodd y Grŵp y VLA i roi cyflwyniad ar y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i leihau gwallau o ran cynnal profion. Mae'r Grŵp hefyd yn nodi canfyddiad DNV bod lefel uchel o sicrwydd

³ adroddiad ar ymchwilio i fethiannau cynnal profion a gyhoeddwyd 11 Hydref 2004 yn <http://www.food.gov.uk/news/newsarchive/2004/oct/wallreport>

wedi'i roi o ran integredd y systemau sydd ar waith ar gyfer cynnal profion labordai yn gyflym o'r gweithgareddau a arsylwir ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon a bod systemau nodi ac olrhain wedi'u canfod i fod yn gadarn.

13. Mae'r Grŵp yn dod i'r casgliad bod elfen samplu a phrofi'r system yn gweithio'n dda. Mae lefel y canlyniadau "dim prawf", er ei bod yn gymharol isel, yn achosi i'r diwydiant fynd i gost y gellir ei hosgoi, ond nid yw wedi hyn wedi peri risg i ddiogelwch defnyddwyr.

(c) gwiriadau ac archwilio

14. Mae'r Grŵp wedi cael sicrwydd gan MHS a DARD bod eu gwiriadau ar weithredu'r system cynnal profion yn dangos na chaniatawyd i unrhyw wartheg OTM heb ganlyniad negyddol mewn prawf a dim anifail a anwyd neu a fagwyd yn y DU cyn Awst 1996 fynd i mewn i'r cyflenwad bwyd. Nododd y Grŵp hefyd fod croeswiriad a gynhaliwyd yn ôl-weithredol rhwng data lladd ar y System Olrhain Gwartheg a'r data ar ganlyniad prawf pob anifail a brofwyd wedi cadarnhau na ddigwyddodd methiant o'r fath ym Mhrydain Fawr hyd at ddiwedd mis Mawrth 2006. Nid oes angen y cyfryw wiriad ôl-weithredol yng Ngogledd Iwerddon, gan fod y System Gwybodaeth am lechyd Anifeiliaid a'r Cyhoedd (APHIS) yn galluogi gwiriadau "amser real" ar gymhwyster gwartheg wrth eu lladd⁴.
15. Mae'r Grŵp wedi archwilio canlyniadau archwiliadau o reolaethau'r MHS a DARD ar ladd gwartheg OTM i'w bwyta gan bobl gan Dîm Gwirio ac Archwilio'r MHS a VS DARD. Mae archwilwyr MHS dod i'r casgliad bod yr archwiliadau a gynhaliwyd hyd yn hyn yn rhoi sicrwydd bod staff yr MHS yn cymhwyso'r rheolaethau fel sy'n ofynnol. Mae archwilwyr DARD yn dod i'r casgliad bod y system o RMOPs cymeradwy, treialon, goruchwyllo ac archwilio wedi creu system sydd â chyfradd uchel o gydymffurfio a risg isel iawn y bydd deunydd anaddas o wartheg OTM yn mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd.
16. Canfu adolygiad DNV fod y trefniadau ar gyfer archwilio'r drefn cynnal profion gan staff milfeddygol yr MHS a DARD a chan y priod archwiliadau mewnol yn rhoi lefel dda o sicrwydd.
17. Yn ogystal â'r trefniadau hyn, mae'r FSA yn cymryd cyfrifoldeb parhaus dros archwilio'r system cynnal profion gyfan gan fod DNV bellach wedi gorffen ei adolygiad. Mae'r Grŵp yn falch o nodi, yng ngoleuni ei bryder y dylai'r system reoli gyfan gan gynnwys archwilio fod yn destun gwaith craffu annibynnol, bod yr FSA wedi cytuno y dylai archwiliad yr FSA gael ei ddilysu gan drydydd parti.
18. Mae'r Grŵp yn dod i'r casgliad bod y rheolaethau lladd-dai ar brosesu gwartheg OTM i'w bwyta gan bobl yn gweithio'n effeithiol a hyd yn hyn mae cydymffurfiaeth o 100% wedi bod â'r rheol bod yn rhaid i wartheg OTM gael canlyniad negyddol mewn prawf BSE cyn y caniateir iddynt fynd i mewn i'r cyflenwad bwyd. Nid yw unrhyw wartheg a anwyd neu a fagwyd yn y DU cyn Awst 1996 wedi mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd. Mae'r system o wiriadau ac archwilio yn rhoi sicrwydd y gellir cynnal y lefel dda hon o berfformiad.

(d) eithriadau

⁴ Mae APHIS wedi'i rhaglennu i amlygu unrhyw anifail a anwyd cyn Awst 1996 cyn ei ladd ac yn argraffu rhestr o'r holl anifeiliaid a laddwyd gan bob cynhyrchydd, gan eu gwahanu i mewn i gategoriâu oedran, h.y. o dan dri deg mis, OTM a chyn-Awst 1996, gan helpu i osgoi lladd amhriodol. Mae'r wybodaeth ar gael ar "amser real" ym mhob lladd-dy.

19. Mae'r Grŵp wedi archwilio'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r system reoli sydd, er nad ydynt yn arwain at unrhyw gig anghymwys yn mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd, yn cynyddu'r risg y gallai methiant o'r fath ddigwydd.
20. Yr achos mwyaf cyffredin o ddiffyg cydymffurfio fu'r gwartheg a anwyd neu a fagwyd yn y DU cyn Awst 1996 a anfonwyd i ladd-dai sy'n lladd gwartheg i'w bwyta gan bobl, sy'n dor-cyfraith ac sy'n peri risg y gallai anifail o'r fath osgoi'r rheolaethau a mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd. Hyd at 25 Mehefin, roedd nifer y gwartheg a anwyd cyn Awst 1996 a gyflwynwyd mewn lladd-dy cig ffres wedi cyrraedd 114 ym Mhrydain Fawr ac 11 yng Ngogledd Iwerddon. Mae nifer fach yn parhau i gael ei darganfod bob wythnos, er bod niferoedd wedi lleihau o gymharu â thrwygyrch cyffredinol gwartheg OTM.
21. Mae'r Grŵp wedi bod yn pryderu'n fwyaf am yr anifeiliaid anghymwys a anfonir i ladd-dai cig ffres yn barhaus. Mae'r Grŵp wedi archwilio'r rhesymau dros hyn ac wedi dod i'r casgliad mai'r prif resymau yw diffyg ymwybyddiaeth o'r rheol a gwall dynol, yn hytrach nag ymgeision bwriadol o dwyll. Mae'r Grŵp, gan weithio â Defra ac eraill, wedi cymryd diddordeb brwd mewn mentrau i gyfleu'r neges ar draws y diwydiant bod anfon anifeiliaid anghymwys yn y fath fodd yn anghyfreithlon ac y bydd yn arwain at gollu anifail, ac mae'n fodlon bod ymdrech sylweddol wedi'i wneud i wneud hynny.
22. Ym mhob achos bron, mae'r anifeiliaid anghymwys wedi'u nodi gan reolaethau'r gweithredwr ei hun cyn lladd ac wedi'u hildio'n wirfoddol i'w gwaredu. Mae'r Grŵp yn ystyried bod hyn yn enghraifft o gydweithredu da â'r rheolaethau gan y diwydiant. Ar yr ychydig achlysuron lle na chanfuwyd anifail dros oedran gan reolaethau'r gweithredwr cafodd ei nodi gan y rheolaethau swyddogol (yr MHS yn yr achosion hyn) a'i ddiinstrio.
23. Mae'r Grŵp yn dod i'r casgliad bod perfformiad hyd yn hyn y rheolaethau ar anifeiliaid dros oedran yn dangos eu bod yn effeithiol ond er hynny, mae angen o hyd am fod yn wylidwrus a phwyso'n barhaus ar y diwydiant i leihau'r nifer o anifeiliaid dros oedran a anfonwyd i ladd-dai cig ffres.
24. Mae'r Grŵp wedi adolygu achlysuron eraill o ddiffyg cydymffurfio a allai fod wedi arwain at doriad yn y rheolaethau (crynodeb yn Atodiad A), os na ddelid â hwy'n gywir, ac sydd wedi archwilio pam roedd y rheolaethau ychwanegol ar waith yn effeithiol ym mhob achos ac yn gallu sicrhau nad oedd unrhyw fethiant gwirioneddol wedi bod. Mae'r Grŵp hefyd wedi sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd o'r digwyddiadau hyn wedi'u cofnodi a'u cymhwyso ar draws y system yn fwy cyffredinol i osgoi digwyddiadau yn y dyfodol.
25. Roedd yn nodedig mewn llawer o achosion, o ganlyniad i'r haenau o reolaeth ar waith, er bod nad oedd gofynion un rhan o'r system wedi'u dilyn, bod gwiriad ar gam ddiweddarach wedi sicrhau na ddigwyddodd unrhyw doriad yn y rheolaethau. Er enghraifft, cafodd nifer o achosion o labelu anghywir o botiau samplu eu nodi a'u datrys gan wiriadau a gafodd eu cynnwys yn y system lladd-dai neu, os methai hynny, yn y system labordai.
26. Mae'r Grŵp yn dod i'r casgliad bod nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio, yn gyffredinol, wedi bod yn gymharol fach. Er hynny, mae'r system wedi cael ei herio gan yr achosion hyn ac mae wedi perfformio'n dda wrth wynebu'r rhain.

(e) Cyfathrebu

27. Mae'r Grŵp wedi parhau i adolygu'r angen i gyfathrebu â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill wrth i weithredu'r system cynnal profion fynd yn ei blaen. Mae'r Grŵp hefyd

wedi cytuno ar y mathau o ddigwyddiadau neu fethiant yn y system cynnal profion a fyddai'n cyfiawnhau cyfathrebu a'r blaenoriaethau a'r dulliau ar gyfer nodi'r rhain.

28. Adolygodd y Grŵp y gwaith cyfathrebu a arweiniodd at y newid i gynnal profion a nododd fod cwmpas da wedi bod o'r newid yn y cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol ar y pryd, ond bod diddordeb y cyfryngau yn y pwnc wedi lleihau wedyn. Gan fod y broses o weithredu'r system o gynnal profion wedi mynd rhagddi'n foddhaol wedi hynny heb unrhyw ddigwyddiad o bwys, nid yw'r Grŵp hyd yn hyn wedi gweld angen am ragor o gyfathrebu â'r cyhoedd ar y mater.

Effaith newid yn y rheolau ar ladd ar frys

29. Mae'r Grŵp wedi monitro effaith newidiadau diweddar ar niferoedd yr anifeiliaid a nodir fel achosion lladd ar frys a stoc trig. Y newidiadau dan sylw yw:

- disodli'r rheoli OTM gan gynnal profion BSE (o 7 Tachwedd 2005);
- newid yn yr amodau ar gyfer cymhwyster da byw ar gyfer lladd ar frys ar fferm i'w bwyta gan bobl (o 1 Ionawr 2006). Yn dilyn y newid hwn, dim ond gwartheg sydd fel arall yn iach sy'n cael eu lladd ar fferm ar ôl damwain go iawn y gellir eu derbyn i'w bwyta gan bobl. Nid yw gwartheg sy'n dioddef cyflwr parhaus yn gymwys mwyach;
- disodli'r cynllun dros dri deg mis (OTMS)⁵ gan y Cynllun Gwaredu Gwartheg Hŷn (OCDS) (ar gyfer gwartheg a anwyd cyn Awst 1996) o 23 Ionawr 2006 a chymhwysiad llawn yr amodau cymhwyster newydd ar gyfer lladd ar frys gwartheg sy'n mynd i mewn i OCDS.

30. Roedd yr IAG yn pryderu am niferoedd uchel y gwartheg lladd ar frys a oedd yn mynd i mewn i'r OTMS, gan y byddai'r gwartheg hyn wedi bod, mewn egwyddor, yn gymwys i'w bwyta gan bobl yn dilyn newid y rheol OTM ac roedd y rhan fwyaf o'r gwartheg a oedd yn cael canlyniad positif mewn prawf BSE yn y boblogaeth hon. Fel y mae, mae'r newidiadau a nodwyd uchod wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd ar frys. Niferoedd y gwartheg o'r fath sy'n mynd i mewn i ladd-dai cig ffres bob wythnos ar hyn o bryd yw oddeutu 10 yn unig ym Mhrydain Fawr a 0 i 3 yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â niferoedd cyfartalog wythnosol o wartheg a oedd yn cael eu lladd ar frys ym mis Tachwedd 2005 o fwy na 2,300 ym Mhrydain Fawr a 450 yng Ngogledd Iwerddon (y byddai pob un ohonynt, ac eithrio llond llaw ohonynt, wedi mynd i mewn i'r OTMS). Ceir graff yn dangos y newid ym Mhrydain Fawr yn Atodiad 2.

31. Mae'r Grŵp yn dod i'r casgliad bod effaith y newidiadau uchod, mewn lleihau niferoedd y gwartheg a laddwyd ar frys a allai fod wedi mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd o bosibl, wedi bod yn fanteisiol wrth leihau'r risg o BSE mewn gwartheg OTM sy'n mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd.


⁵ y cynllun difa blaenorol y prynwyd gwartheg OTM anghymwys i'r cyflenwad bwyd oddi tanodd i'w dinistrio

Adroddiadau Eithriadau (Crynodeb)

| Math o eithriad | Nifer o adroddiadau |
|--|----------------------------|
| Atal treialon cymeradwyo o ganlyniad i reolaethau gwael / cyfleusterau annigonol | 4 |
| Methiant i wahanu gwartheg OTM oddi wrth wartheg sy'n llai na 30 mis oed wrth eu lladd | 7 |
| Buwch OTM wedi'i lladd mewn lladd-dy nas cymeradwywyd | 1 |
| Gwartheg a anwyd neu a fagwyd yn y DU cyn Awst 1996 a laddwyd | 3 |
| Gwallau mewn labelu potiau sampl/adrodd ar ganlyniadau | 9 |
| Carcas a ddylai fod wedi'i waredu o dan y rheol "1 cyn 2 ar ôl" y caniatwyd iddo fynd i mewn i'r ystafell dorri cyn iddo gael ei nodi a'i waredu | 1 |
| Eithriadau ar anfon carcasau OTM sy'n cynnwys colofn cefn (seliau wedi'u torri/gwaith papur anghywir neu ar goll ac ati) | 9 |
| Labeli streipen glas a gymhwyswyd i garcasau OTM | 1 |
| Absenoldeb OVS yn ystod rhan o dreial cymeradwyo lladd-dy | 1 |
| Eithriadau ar garcasau a gedwir (seliau wedi'u torri/gorchymyn dim storio wrth ladd) | 3 |
| Darn bach o linyr y cefn mewn carcas OTM ⁶ | 2 |
| Anifail OTM nas samplwyd, o ganlyniad gwardwyd 4 carcas a holl offal a sgîl gynhyrchion y broses lladd | 1 |
| Anfonwyd carcasau OTM i safle torri cig annibynnol heb hysbysu OVS | 1 |

⁶ methiannau SRM yw'r rhain yn hytrach na methiannau'r system cynnal profion BSE

Animals reported as fallen stock and emergency slaughter in Great Britain.



Annex 2 Additional Text

| | |
|--|--|
| Animals reported as fallen stock and emergency slaughter in Great Britain. | Anifeiliaid a nodwyd fel stoc trig neu i'w lladd ar frys ym Mhrydain Fawr. |
| No. of animals reported for testing | Nifer yr anifeiliaid a nodwyd i'w profi |
| Week commencing date | Dyddiad wythnos yn dechrau |
| Fallen Stock Pre 1/8/96 | Stoc Trig Cyn 1/8/96 |
| Fallen Stock Post 1/8/96 | Stoc Trig Ar Ôl 1/8/96 |
| Casualty Animals Pre 1/8/96 | Anifeiliaid Sâl Cyn 1/8/96 |
| Casualty Animals Post 1/8/96 | Anifeiliaid Sâl Ar Ôl 1/8/96 |

Disodli Rheol OTM: Adroddiad Archwilio yr Adolygiad Annibynnol o Safleoedd Profi BSE

Rheoli Risg DNV

Disodli Rheol OTM: Adroddiad Archwilio'r Adolygiad Annibynnol o Safleoedd Profi BSE

MANYLION YR ARCHWILIAD

| | | | | |
|---------------------------------------|---------------------------|---|--------------------------------------|--------------------|
| Manylion yr Archwiliad | | | | |
| Enw'r Cwmni Archwilio: DNV Consulting | | | | |
| Archwilydd: Craig Whitehouse | Dyddiad yr Archwiliad: | | Rhif Safle y Comisiwn Ewropeaidd: | |
| Deiliad y Safle / Enw'r Cwmni: | | | | |
| Cyfeiriad y Deiliad: | | | | |
| Côd Post: | | Rhif Ffôn | | |
| Cyfeiriad y Cwmni Cofrestredig: | | | | |
| Côd Post: | | Rhif Ffôn: | | |
| Enw/Teitl y Swydd: | | Yn bresennol yn ystod yr Archwiliad (✓) | | |
| | Cyfarfod Agored | Safle a Gweithdrefnau | Archwiliad | Cyfarfod i Gloi |
| | ✓ | ✓ | | ✓ |
| AOV - | | | | |
| OVS - | | | | |
| Gweithgareddau'r Safle | | | | |
| | | | | |

| | | | |
|---|--|---------------|------------------------------------|
| DNV Consulting – Rhif y Prosiect 22312319 | | | |
| Rhifyn: Rhifyn 1 | | Rhif y Safle. | Paratowyd gan: Craig Whitehouse |

Ni fydd yr adroddiad hwn yn cael ei ailgynhyrchu heb ganiatâd DNV Consulting

TROSOLWG O BERFFORMIAD YN ERBYN GOFYNIION OTM

CRYNODEB

| | | | |
|---|--|---------------|------------------------------------|
| DNV Consulting – Rhif y Prosiect 22312319 | | | |
| Rhifyn: Rhifyn 1 | | Rhif y Safle. | Paratowyd gan: Craig Whitehouse |

**TAFLEN GRYNHOI'R NIFER O ACHOSION O DDIFFYG
CYDYMFFURFIO**

| Rhestr o Achosion o Ddiffyg Cydymffurfio | | |
|--|----------------------|--------------------------------|
| Rhif. | Cyfeirnod y Gofyniad | Manylion y diffyg cydymffurfio |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

| DNV Consulting – Rhif y Prosiect 22312319 | | | |
|---|--|---------------|------------------------------------|
| Rhifyn: Rhifyn 1 | | Rhif y Safle. | Paratowyd gan: Craig Whitehouse |

Disodli Rheol OTM: Adroddiad Archwilio yr Adolygiad Annibynnol o Safleodd Profi
BSE

RHESTR WIRIO / ADRODDIAD Y LLADD-DY

| 1. ANGENRHEIDIAU | | | |
|-------------------------|---------------|--|---------------------------------|
| PROSES | Pwrpas | Sylwadau / Tystiolaeth Wrthrychol | Cydymffurfio le / Na |

1. MHS/VS-VPHU er mwyn pennu bod angenrheidiau yn bod

Dylid sicrhau'r canlynol:

Bod digon o staff ar y safle i gyflawni tasgau a sesiynau hyfforddi a bod staff yn cyrraedd y lefel cymhwyso ofynnol, h.y. bod cofnodion cymwysterau a hyfforddiant staff sy'n defnyddio peiriannau a staff yr MHS/VS-VPHU yn gywir, yn gyflawn ac yn gyfredol.

1.1

Bod gan Filfeddygon Swyddogol (OVS) ddigon o staff a chyfleusterau i'w galluogi i gyflawni cyfrifoldebau ychwanegol cyn marwolaeth.

1.2

Bod Milfeddygon Swyddogol sydd wedi'u contractio yn ymwybodol o'r blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â'r rheol profi BSE mewn anifeiliaid dros dri deg mis (OTM). Lefel y gwasanaeth wedi'i ddiffinio yn y contract?

1.3

Digon o lociau / lle i ladd ar y safle, a ydynt yn gwahanu da byw dros dri deg mis y mae angen eu profi (hefyd yn cynnwys anifeiliaid sâl dros 24 mis).

1.4

| | | | |
|--|--|----------------------|--|
| DNV Consulting – Rhif y Prosiect 22312319 | | | |
| Rhifyn: 1 | | Rhif y Safle. | Paratowyd gan: Craig Whitehouse |

Disodli Rheol OTM: Adroddiad Archwilio yr Adolygiad Annibynnol o Safleoedd Profi BSE

Cyfleusterau samplu addas ar gael, (gwahanu er mwyn osgoi croes-halogi).

Bod staff sy'n cymryd y samplau wedi eu nodi ar gofrestr DEFRA

1.5

Bod adran oeri briodol, diogel a digonol ar gael i ddal y carcasau a rhannau eraill nes bod canlyniadau'r profion ar gael.

1.6

Bod gan safleoedd ffordd ddiogel ac effeithlon o dderbyn canlyniadau, e.e. ffacs, e-bost

1.7

Bod "Cynllun Adnabod a Rheoli Peryglon – HICP) ar waith ar gyfer profi.

1.8

Bod prosesau archwilio mewnol HMS boddhaol ar waith

1.9

Bod gweithredwyr yn ymwybodol o faterion lechyd a Diogelwch (gweler canllaw ACDP)

1.10 Dull Gofynnol o Weithredu (RMOP)

Bod gan bob safle RMOP sydd wedi ei gymeradwyo gan yr AOV a HQ OTM VA, (cymeradwywyd gan HQ VS-VPHU, DVO yng Ngogledd Iwerddon.

